# SL(6)643 – Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) (Diwygio) 2025

## Cefndir a diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017 (“y Rheoliadau Marchnata Ffrwythau”), sydd â'r nod o reoli ansawdd planhigion ffrwythau (ar gyfer cynhyrchu ffrwythau) a deunydd lluosogi ffrwythau ar y farchnad. Mae'r Rheoliadau Marchnata Ffrwythau yn gwneud hyn trwy osod safonau cynhyrchu ar gyfer y deunydd hynny i sicrhau eu bod yn bodloni safonau gofynnol o ran iechyd ac ansawdd planhigion yn ogystal â safonau adnabod amrywogaethau lle bo hynny'n briodol. Gall cyflenwr farchnata deunydd planhigion o'r fath dim ond os yw'r cyflenwr wedi'i gofrestru a bod y deunydd planhigion yn bodloni'r safonau.

Nod y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod categorïau plâu a gofynion ar gyfer y mannau cynhyrchu yn gyfredol ac yn gyson â datblygiadau yn yr asesiad risg parhaus. Mae'r Rheoliadau hyn yn diweddaru gofynion ar gyfer Plâu Rheoledig Di-Gwarantîn ('RNQPs') newydd, er enghraifft drwy ychwanegu a dileu rhai plâu fel RNQPs fel y'u darllenir yng Nghyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/98/EU.

Maent hefyd yn gwneud gwelliannau technegol a chywirol eraill, megis mewnosod diffiniad o “farchnata” i roi eglurder ynghylch pa weithgareddau sy’n dod o dan y Rheoliadau Marchnata Ffrwythau, a mewnosod gofyniad bod yn rhaid i ddogfennau cyflenwyr sy'n teithio gyda phlanhigion ffrwythau o radd CAC yn nodi a yw'r amrywogyn wedi'i addasu'n enetig.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod y Rheoliadau'n briodol i gynnal cywerthedd â gofynion yr UE “*fel y gallwn barhau i fasnachu'n ddifwlch*”. Mae deddfwriaeth ddiwygio gyfatebol wedi'i gwneud mewn perthynas â Lloegr a'r Alban. Mae Gogledd Iwerddon eisoes yn ddarostyngedig i'r trefniadau hyn o dan gyfraith yr UE.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu’r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Mae un pwynt wedi'i nodi i'w adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 6 yn diwygio paragraff 4(2)(b) o Atodlen 5 i'r Rheoliadau Marchnata Ffrwythau i ddisodli'r gair presennol "*amrywogyn*" gyda'r gair "*rhywogaeth*". Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai mân gywiriad yw hwn i gywiro'r defnydd o derm anghywir.

O ganlyniad, bydd paragraff 4(2)(b) o Atodlen 5 fel y'i diwygiwyd yn nodi y gellir ardystio gwreiddgyff nad yw'n perthyn i amrywogyn fel deunydd cyn-sylfaenol os, ynghyd â bodloni gofynion eraill yn is-baragraff (2), ei fod wedi'i wirio gan arolygydd fel un sy'n wir i'r disgrifiad o'i rywogaeth yn unol â phagraff 7 o'r Atodlen honno.

Fodd bynnag, mae paragraff 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r arolygydd wirio cywirdeb planhigion tarddiol cyn-sylfaenol a deunydd cyn-sylfaenol yn erbyn y disgrifiad o'u amrywogyn, yn unol â pharagraff 5(2) a (3) o Atodlen 5. Yn yr un modd, dim ond at arolygydd sy'n sefydlu cywirdeb planhigyn tarddiol cyn-sylfaenol i'r disgrifiad o'i amrywogyn mae is-baragraffau (2) a (3) o baragraff 5 o Atodlen 5 yn cyfeirio, trwy arsylwi mynegiant nodweddion yr amrywogyn, nid rhywogaeth.

Felly, gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro gweithrediad y paragraff 4(2)(b) diwygiedig, o ystyried bod paragraffau 5(2) a (3), a 7, (sy'n gysylltiedig â pharagraff 4(2)(b) yn y ffordd a ddisgrifiwyd uchod) yn cyfeirio at "*amrywogyn*", yn hytrach na "*rhywogaeth*".

Er mwyn bod yn gyflawn, nodir bod y term "*rhywogaeth*" yn cael ei ddefnyddio mewn darpariaethau eraill o'r Rheoliadau Marchnata Ffrwythau, er enghraifft ym mharagraff 15(2)(a) o Atodlen 5.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae rheoliad 6 yn diwygio paragraff 4 o Atodlen 5 i Reoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017. Mae paragraff 4 yn darparu ar gyfer 'gwreiddgyffion nad ydynt yn perthyn i amrywogaeth' ac, fel y cyfryw, mae'r diwygiad yn disodli'r gair 'amrywogaeth' â'r gair 'rywogaeth'.

Nodwn fod y diwygiad yn creu tyndra â darpariaethau eraill yn yr Atodlen ond nid ydym yn rhagweld y bydd hyn yn arwain at broblemau ymarferol. Derbyniwn y gallai'r diwygiad fod yn gliriach a byddwn yn ystyried y pwynt y tro nesaf y bydd y prif offeryn yn cael ei ddiwygio.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 15 Medi 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.